

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ‘Dyletswydd Gonestrwydd’**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rydym yn ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn ein hawdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cyngorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodedig.

Gallwn ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd inni o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn ein caniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreifftiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

Crynodeb

Rydym yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion hyn a'r trafodaethau adeiladol â Swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'n meysydd penodol sy'n peri pryder.

Yn benodol, rydym am wneud sylwadau ar ddau agwedd ar yr ymgynghoriad. Yn gyntaf, yn ymwneud â chyflwyno Dyletswydd Gonestrwydd ac yn ail, y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Gweithio i Wella (GIW).

- Rydym yn croesawu'r bwriad i gyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn galonnog. Os caiff ei gweithredu'n llwyddiannus, dylai'r Ddyletswydd gefnogi'r symudiad o fewn y GIG tuag at fod yn fwy agored a thryloyw, gan wella profiad y claf a hyder yn y gwasanaeth yn y pen draw.
- Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd gweithredu'r Ddyletswydd hon yn llwyddiannus yn ymrwymiad sylweddol i'r GIG yng Nghymru a bydd angen adnoddau ychwanegol. Byddem yn croesawu mwy o fanylion am ba adnoddau a fydd yn cael eu hymrwymo i gefnogi gweithrediad llwyddiannus y Ddyletswydd hon.
- Er bod yr ymgynghoriad hwn yn delio o reidrwydd â'r prosesau a gweithdrefnau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, rydym o'r farn y bydd y cynigion hyn ond yn llwyddiannus pan fydd gan sefydliadau'r diwylliant cywir ar waith i annog bod yn agored ac i roi hyder i staff y gallant godi materion heb ofni canlyniadau iddyn nhw yn bersonol.
- Gallai cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd greu mwy o gwynion i'n swyddfa. I baratoi ar gyfer y cynnydd posibl hwnnw, rydym yn awyddus i ddysgu mwy am y nifer disgwylidig o adolygiadau Dyletswydd Gonestrwydd ac ymatebion GIW.
- Yn dilyn cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, wrth ymchwilio i gwynion gofal iechyd perthnasol, rydym yn debygol o ystyried a gafodd y Ddyletswydd ei chyflawni a sut. Byddwn yn anfon rhagor o ohebiaeth at gyrff iechyd i sicrhau eu bod nhw a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y byddwn yn dechrau ystyried a yw gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'u bodloni wrth i ni ystyried achosion.
- **Byddwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau GIW a'r cynllun canllawiau a fyddai'n caniatáu i gyrff iechyd ail-ystyried cwynion yn dilyn ein canfyddiadau.** I osgoi unrhyw gamddealltwriaeth y gall gyrff iechyd ail-ystyried cwyn yr ydym eisoes wedi ymchwilio iddi, rydym yn awgrymu newid ychydig o'r geiriad yn adrannau perthnasol y rheoliadau a'r

canllawiau.

- I osgoi unrhyw amheuaeth, rydym am sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl glir y caiff annibyniaeth a didueddrwydd OGCC eu cynnal wrth benderfynu ar achosion. Dymunwn bwysleisio nad ydym, yn ein penderfyniadau gwaith achos, wedi ein rhwymo mewn unrhyw ffordd gan delerau'r Rheoliadau GIW nac unrhyw un o'r terfynau ariannol o fewn y cynllun. Mae pwerau'r Ombwdsmon yn golygu bod gennym ddisgresiwn eang i wneud penderfyniadau achos ac argymhellion. Nid yw'r Ombwdsmon wedi'i rwymo mewn unrhyw ffordd gan delerau'r cynllun GIW na therfynau iawndal ariannol yn y cynllun. Mewn achosion lle mae anghyfiawnder difrifol wedi digwydd, gall yr Ombwdsmon wneud argymhellion ar gyfer iawndal ariannol priodol o fewn telerau cylch gwaith yr Ombwdsmon ar ôl ystyried amgylchiadau unrhyw achos penodol.
- Awgrymwn ddiwygio Canllawiau Statudol 2023 y Ddyletswydd Gonestrwydd i'r perwyl y dylai'r ddysg o achosion a ystyriwyd gennym fod yn rhan o asesiadau cyrff y GIG o ba mor effeithiol y maent yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Dyletswydd Gonestrwydd

Rydym yn croesawu'r bwriad i gyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn galonnog. Fel y dywedasom yn y gorffennol, os caiff ei gweithredu'n llwyddiannus, credwn y bydd y ddyletswydd statudol hon yn cyfrannu'n sylweddol at wella'r dull o ymdrin â chwynion a dysgu o gwynion. Fodd bynnag, yn bwysicaf oll, dylai arwain at brofiad gwell i gleifion. Drwy ddileu'r unig ddibyniaeth ar gleifion i gyflwyno cwynion, dylai'r Ddyletswydd hon wneud y GIG yn fwy agored a thryloyw, gan wella hyder pobl yn y gwasanaeth yn y pen draw.

Rydym am danlinellu, er mwyn gweithredu'r Ddyletswydd hon yn llwyddiannus, yn ein barn ni bydd angen addasu arferion presennol y GIG yn sylweddol.

- Yn gyntaf, i'r Ddyletswydd hon gyflawni ei photensial, mae'n rhaid cael diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw er mwyn cefnogi ei gweithrediad. Yn rhy aml o lawer, pan fyddwn yn ymchwilio i achosion gofal iechyd, deugn ar draws agwedd amddiffynnol, yn hytrach nag ymagwedd onest ac agored. Rydym o'r farn, os yw'r diwylliant cywir yn bodoli yn y sefydliad, yna bydd gan bobl o fewn y GIG yr hyder i godi materion ac y bydd parodrwydd i ymchwilio i faterion o'r fath, cydnabod unrhyw gamgymeriadau, unioni pethau ac ymgorffori dysgu ehangach.
- Yn ail, rydym yn ymwybodol bod y Ddyletswydd hon yn debygol o greu pwysau newydd ar y GIG sydd eisoes yn wynebu pwysau sylweddol ar ei wasanaethau a'i adnoddau. Mae'r ymagwedd ragweithiol sy'n ganolog i weithredu'r

Ddyletswydd hon yn debygol o alw am newidiadau i brosesau, mwy o godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant a mwy o adnoddau i dimau ymdrin â chwynion.

Nodwn fod [yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) (RIA) sy'n cyd-fynd â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltiad) (Cymru) (2020) yn nodi y 'dylai Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol fod â rhai trefniadau ar waith eisoes i fodloni gofynion presennol egwyddorion Bod yn Agored o fewn Gweithio i Wella' a bod 'yr adnoddau sydd eu hangen ar ddarparwr felly i weithredu'r ddyletswydd yn debygol o amrywio yn dibynnu ar aeddfedrwydd eu trefniadau presennol.'

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y RIA y bydd cyflwyno'r Ddyletswydd yn galw am rai adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, nodwn gyda pheth pryder y disgwylir i'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus alw am ymgysylltu ag un gweithiwr GIG rhan-amser yn unig. Nodwn hefyd fod mwyafrif o'r costau hyfforddi disgwylidig yn gostau cyfle. Er bod y RIA yn rhoi sylw i gostau cyfle datblygu cynlluniau gweithredu i gyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, mae'r amser a'r gost a ragwelir yn ymddangos yn gyfyngedig iawn i mi. Nid yw'n ymddangos bod cyfeiriad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol at adnoddau i ddatblygu lefelau staffio timau cwynion presennol.

Gyda hynny mewn golwg, byddem yn croesawu mwy o fanylion am ba adnoddau a fydd yn cael eu hymrwymo i gefnogi gweithrediad llwyddiannus y Ddyletswydd hon.

Goblygiadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar OGCC

Rydym am achub ar y cyfle hwn i dynnu sylw at sut y gallai cyflwyno'r Ddyletswydd hon effeithio ar ein gwasanaeth.

Os caiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei gweithredu'n llwyddiannus, dylai arwain at faterion posibl yn cael eu nodi, eu hymchwilio, a'u datrys yn rhagweithiol gan y GIG. Felly, os bydd yn llwyddiannus, dylai'r Ddyletswydd hon arwain yn y pen draw at leihad o ran nifer y cwynion am fethiannau mewn gofal sy'n cyrraedd ein swyddfa. Fodd bynnag, am y rhesymau sydd wedi'u hamlinellu uchod eisoes, disgwylid na fydd buddion o'r fath yn dod i'r amlwg yn y tymor byr.

Yn hytrach, disgwylid, i ddechrau o leiaf, y gallai cyflwyno'r Ddyletswydd arwain at fwy o gwynion i'n swyddfa.

- Bwriad y Ddyletswydd yw bod y GIG yn agored am ei fethiannau posibl a'i fod yn ceisio ymchwilio iddynt yn rhagweithiol ynghyd â'u cywiro. Serch hynny, ein dealltwriaeth o'r cynigion yw, os bydd gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd yn ysgogi adolygiad, cam olaf yr adolygiad hwnnw fydd ymateb o dan y broses 'Gweithio i Wella' (GIW). Fel y cyfryw, bydd yn rhaid i'r ymateb terfynol hwn

hysbysu'r unigolyn o'i hawl i gwyno i ni. Mae'n debygol na fydd pob aelod o'r cyhoedd yn fodlon â chasgliadau'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd a byddant yn dewis dod at ein swyddfa o ganlyniad.

- Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn dechrau derbyn cwynion am gyrff iechyd nad ydynt yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd. Mae ein cydweithwyr yn swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr Alban (lle cyflwynwyd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn 2018) wedi dweud wrthym mai ychydig o gwynion o'r fath y maent yn eu gweld o hyd. Efallai mai un o'r prif resymau am hynny yw diffyg ymwybyddiaeth. Gobeithiwn y bydd cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd yng Nghymru yn cael cyhoeddusrwydd da ac y bydd cleifion yn cael cyngor clir a rhagweithiol ar eu hawliau o dan y Ddyletswydd bob tro y byddant yn ymgysylltu â'r GIG yng Nghymru. Os felly, credwn ei bod yn bosibl y byddwn hefyd yn dechrau derbyn cwynion yn benodol am sut y mae'r Ddyletswydd wedi'i gweithredu gan gyrff y GIG.

Ymhellach, yn dilyn cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, wrth ymchwilio i gwynion gofal iechyd perthnasol¹, rydym yn debygol o ystyried a gafodd y Ddyletswydd ei chyflawni hyd yn oed os na chodwyd hynny fel mater gan yr achwynydd. Os byddwn yn canfod nad oedd y Ddyletswydd wedi'i chyflawni'n briodol, gallwn ddewis adlewyrchu hynny yn ein hargymhellion. Drwy hyn, credwn y gall ein swyddfa gefnogi'r GIG yng Nghymru i symud tuag at fod yn fwy agored a thryloyw. Rydym yn codi hyn ar hyn o bryd a byddwn yn anfon gohebiaeth bellach at gyrff y GIG i sicrhau eu bod nhw a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y byddwn yn mabwysiadu'r dull hwnnw.

Ar hyn o bryd mae'n anodd rhagweld yn fwy manwl gywir pa lwyth gwaith ychwanegol y mae'r Ddyletswydd yn debygol o'i greu ar gyfer ein swyddfa. Fodd bynnag,

- Rydym yn nodi bod y RIA y cyfeirir ato uchod yn mabwysiadu 7,341 fel amcangyfrif o nifer yr achosion lle gallai'r Ddyletswydd Gonestrwydd gael ei hysgogi. Fodd bynnag, mae'r RIA yn cydnabod y gall fod rhywfaint o dangofnodi achosion o'r fath. Yn ogystal, mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar ystadegau 2017/18 sy'n rhagflaenu'r argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19 a'i effaith ar y gwasanaeth iechyd.

¹Y rhai lle dioddefodd defnyddwyr gwasanaeth niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy na chyn lleied â phosibl.

- Hyd yn oed pe baem yn rhagdybio, o'r cyfanswm hwnnw, mai amcangyfrif ceidwadol o ddim ond 5% o achosion fydd yn cael eu cyfeirio atom,² byddai atgyfeiriadau o'r fath yn creu dros 360 o gwynion ychwanegol (i roi cyd-destun, yn 2021/22 gwnaethom ystyried 913 o gwynion am ieched, a 824 o gwynion am Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd). Byddai hynny'n nifer sylweddol o achosion ychwanegol a gallai arwain at oblygiadau i'r gwasanaeth yr ydym yn gallu ei gynnig.

Er mwyn paratoi ar gyfer y cynydd posibl yn ein llwyth achosion, rydym yn awyddus i ddysgu mwy am yr amcangyfrifon diweddaraf o'r nifer disgwylidig o adolygiadau Dyletswydd Gonestrwydd ac ymatebion GIW yn y tymor byr, canolig a hir.

Cynllun Gweithio i Wella

Fel rhan o'r cynigion, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig rhai newidiadau i'r Rheoliadau a chanllawiau GIW. Mae gennym rai pwyntiau penodol a chyffredinol mewn ymateb i'r cynigion hyn.

Cyd-destun: ein gwasanaeth a'r cynllun GIW

I roi cyd-destun, mae'n fuddiol ailadrodd yma sut mae ein gwasanaeth yn berthnasol i'r cynllun GIW ar hyn o bryd.

- Mae pwerau'r Ombwdsmon wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol - Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ('y Ddeddf'). O dan y Ddeddf, rydym yn ymchwilio i gwynion am anghyfiawnder i aelod o'r cyhoedd oherwydd camweinyddu neu fethiant gwasanaeth. Ar ddiwedd ymchwiliad, gallwn gyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion i unioni anghyfiawnder sydd wedi'i achosi i unigolyn.
- Mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn ym mhob achos i benderfynu pa argymhellion i'w gwneud. Yn aml, argymhellwn fod y corff yn ymddiheuro, yn adolygu ei brosesau, neu'n cynnig hyfforddiant i staff. Fodd bynnag, gallwn hefyd argymhell bod y corff yn talu iawndal ariannol unigol. Wrth wneud yr argymhelliad hwnnw, rhaid i ni fod yn berthnasol yn rhesymol ac yn rhesymegol i'r anghyfiawnder sydd wedi'i achosi i'r unigolyn. Mae'r Ddeddf yn awdurdodi darparwyr gwasanaethau i wario arian cyhoeddus ar iawndal ar gyfer materion

²Dyma'r gyfran bresennol o gwynion y mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru wedi eu hymdrin â nhw ac sydd wedi'u cyfeirio atom (gweler [datganiad ystadegol Safonau Cwynion 6 Rhagfyr 2022](#))

sy'n destun cwyn i'r Ombwdsmon.

- Mae'r cynllun GIW yn fecanwaith deddfwriaethol a gyflwynwyd yn 2011 drwy is-ddeddfwriaeth ar gyfer datrys cwynion a wneir yn erbyn cyrff gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Pwrpas y cynllun ar y naill law yw rheoleiddio a symleiddio'r broses gwyno, ac ar y llaw arall, darparu dull rhatach o ddatrys honiadau o esgeuluster clinigol mewn rhai achosion gwerth isel (hyd at £25k).
- Mae Rheoliadau GIW 2011 yn datgan yn benodol na ellir ystyried 'pryder sydd neu a fu'n destun ymchwiliad gan OGCC,' o dan y broses GIW. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, gellir cyfeirio mater atom ar ôl iddo fod trwy ymchwiliad GIW.

Ein sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau a Chanllawiau GIW

Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau a Chanllawiau GIW yn nodi y gall cyrff iechyd ystyried pryderon ar ôl i ymchwiliad gan OGCC ddod i ben.

Byddwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau a chanllawiau GIW a fyddai'n caniatáu i gyrff iechyd ail-ystyried neu ail-ymchwilio i gwynion yn dilyn ein canfyddiadau. Mae hyn oherwydd disgwyliwn i gyrff iechyd gynnal ymchwiliadau priodol i gwynion a wneir iddynt cyn paratoi eu hymatebion terfynol. Yn ogystal, byddai newidiadau o'r fath yn mynd yn groes i'r nod o wella profiad y claf sy'n ganolog i'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Gall gwneud cwyn o dan y Rheoliadau GIW ac yna i'r Ombwdsmon gymryd cryn dipyn o amser a byddem hefyd am osgoi unrhyw gamau ychwanegol sy'n oedi datrysiad a chasgliad i'r achwynydd.

Yn seiliedig ar y trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ein dealltwriaeth ni yw nad bwriad y newidiadau arfaethedig yw rhoi'r opsiwn i gorff iechyd **ail-ymchwilio** i gŵyn ar ôl i ni ymchwilio iddi. Yn hytrach, y bwriad yw caniatáu i gorff iechyd ystyried rhoi **iawn ariannol** o dan y cynllun GIW ar ôl i ni ymchwilio, os yw hyn yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Os felly, i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth y gall cyrff iechyd ail-ystyried cwyn yr ydym eisoes wedi ymchwilio iddi, rydym yn awgrymu bod y cynigion yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

2023 Rhif. (W.) Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023.

Mae rheoliad 2(5) yn gwneud diwygiadau i reoliad 14	
---	--

<p>o'r Prif Reoliadau (materion a phryderon a eithrir rhag eu hystyried o dan y trefniadau) fel -</p> <ul style="list-style-type: none"> y gall cyrff cyfrifol ystyried pryderon ar ôl i ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i ben; 	<ul style="list-style-type: none"> y gall cyrff cyfrifol gynnig lawn dim ond o dan Ran 6 ar ôl i ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i ben;
<p>2 (5) Yn rheoliad 14(1)— (a) yn is-baragraff (c), ar ôl “Cymru” mewnosoder “, oni bai bod y corff cyfrifol yn ystyried ei bod yn briodol ystyried y pryder ar ôl i ymchwiliad yr Ombwdsmon ddod i ben;”</p>	<p>(a) yn is-baragraff (c), ar ôl “Cymru” mewnosoder “, oni bai bod y corff cyfrifol yn ystyried ei bod yn briodol cynnig math o lawn dim ond o dan Ran 6 o'r Rheoliadau hyn i berson ar ôl i ymchwiliad yr Ombwdsmon ddod i ben;”</p>
<p><u>Canllawiau Gweithio i Wella 2023</u></p>	
<p>Adran 5, Mynegi Pryder – Pryderon – yr hyn na all pobl ei godi fel pryderon o dan y trefniadau hyn, para 5.13, newid y drydedd fwled i ychwanegu'r canlynol ar ôl 'Cymru':</p> <ul style="list-style-type: none"> oni bai bod y corff cyfrifol yn ystyried ei bod yn briodol ystyried y pryder ar ôl i ymchwiliad yr Ombwdsmon ddod i ben. 	<ul style="list-style-type: none"> oni bai bod y corff cyfrifol yn ystyried ei bod yn briodol cynnig lawn dim ond o dan Ran 6 o'r Rheoliadau hyn i berson ar ôl i ymchwiliad yr Ombwdsmon ddod i ben.

I osgoi unrhyw amheuaeth, hoffem bwysleisio nad ydym, yn ein penderfyniadau gwaith achos, yn rhwym i delerau'r Rheoliadau GIW nac unrhyw un o'r terfynau ariannol o fewn y cynllun. Mewn achosion lle byddwn yn canfod anghyfiawnder difrifol, gallwn wneud argymhellion ar gyfer iawn ariannol priodol yn unol â gofynion ein Deddf ac yn unol â chyfraith achos berthnasol ar y mater hwn. Ni fyddai'r terfyn o £25,000 a osodwyd ar gyfer iawndal ariannol o dan y Cynllun GIW yn berthnasol lle rydym yn argymhell bod corff iechyd yn talu iawndal ariannol.

Diweddariadau GIW yn gyffredinol

Hoffem achub ar y cyfle hwn i bwysleisio bod cyfle ehangach i 'Gweithio i Wella' gael ei adfywio i gefnogi'r newid diwylliannol yn y GIG Cymru a chysoni safonau ymdrin â chwynion yn agosach â rhannau eraill o wasanaeth cyhoeddus Cymru. Cawsom dawelwch meddwl yn y gorffennol gan y Prif Weinidog y byddai'r Ombwdsmon yn rhan o drafodaethau ar ddiwygiadau posibl i'r Cynllun GIW. Rydym yn ailadrodd ein parodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath y tu allan i'r broses ymgynghori ffurfiol hefyd.

Gwelliannau arfaethedig eraill

Yn olaf, i gefnogi'r ddysg o gwynion yn ymwneud â Dyletswydd Gonestrwydd, awgrymwn fod y paragraff canlynol yn cael ei ychwanegu at Ganllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023:

Ar ôl 13.7, mewnosoder

13.8 Dylai dysg o achosion a ystyriwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('OGCC') hefyd fod yn rhan o asesiad cyrff y GIG o ba mor effeithiol y maent yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er enghraifft, os bydd OGCC yn canfod nad yw corff y GIG wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd mewn perthynas ag unrhyw gŵyn unigol, dylai'r ddysg o achosion unigol fod yn rhan o'i brosesau monitro a sicrwydd.

Sylwadau cloi

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, ein Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombudsman.wales).



Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Rhagfyr 2022